Hwb Gwybodaeth
Knowledge Hub

# Pecyn cymorth gwerthuso

# CYNNWYS

Cyflwyniad a diolchiadau 3

## TROSOLWG

Rhestr wirio i gynllunio gwerthusiad 4
Hunanwerthuso gwaith ymgysylltu neu gomisiynu asiantaeth allanol 10
Cymryd rhan mewn gwerthusiad 12
Moeseg gwerthuso 13

## TAFLENNI FFEITHIAU

Termau allweddol ym maes gwerthuso 2
Beth a phryd i'w werthuso 8
**Technegau gwerthuso:** Ymdrin â rhifau heb fod yn arbenigwr ymchwil 15
**Technegau gwerthuso:** Ymdrin â geiriau mewn gwerthusiadau heb fod yn arbenigwr ymchwil 17
Adnoddau a gwybodaeth bellach 19

**Atodiad 1:** Templed ffurflen ganiatâd cyfranogwr mewn gwerthusiad 21

**Atodiad 2:** Enghraifft o arfer datblygol 1: penderfynu pryd i werthuso a myfyrio ar y broses i werthuso effaith 22

**Atodiad 3:** Enghraifft o arfer datblygol 2: gwneud ffilmiau i werthuso beth sy'n bwysig i bobl sydd â phrofiad bywyd mewn gwaith ymgysylltu 24

**Atodiad 4:** Atodiad 4: Enghraifft o arfer datblygol 3: Gwerthuso’r profiad o gydgynhyrchu mewn prosiect ymchwil gymdeithasol 25

**Atodiad 5:** Atodiad 5: Enghraifft o arfer datblygol 4: Cydgynhyrchu wrth ddylunio gwerthusiad; offeryn ar gyfer gwerthuso gofal sy'n canolbwyntio ar y person 26

**Atodiad 6:** Enghraifft o arfer datblygol 5: Gwerthuso datblygiad a gweithrediad egwyddorion ymgysylltu 27

# CYFLWYNIAD A DIOLCHIADAU

Mae'r canllaw gwerthuso hwn wedi'i gynllunio i'w ddefnyddio yn ei gyfanrwydd neu mewn darnau bach unigol. Gall y darllenydd ddarllen y ddogfen i gael canllaw cam wrth gam i'r broses werthuso, neu gallant ddewis canolbwyntio ar daflenni ffeithiau, trosolwg neu enghreifftiau yn yr atodiadau.

Mae'r canllaw yn rhan o gyfres o adnoddau wedi'u hadnewyddu, gan gynnwys yr Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru a ddatblygwyd ar y cyd rhwng asiantaethau'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector, dan arweiniad CGGC. Mae'r 10 Egwyddor Genedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yn ganllaw arfer da i alluogi ymgysylltu effeithiol, moesegol ac ystyrlon â'r cyhoedd a phobl sy'n defnyddio gwasanaethau. Maent yn safonau clir sydd wedi'u cynllunio i'w defnyddio gan weithwyr proffesiynol ac ymarferwyr mewn ystod o leoliadau, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i, swyddogion y llywodraeth, llunwyr polisi, gweinyddwyr cyhoeddus, cyrff sy'n darparu gwasanaethau ac ymarferwyr ymgysylltu.

Mae'r canllaw gwerthuso hwn yn cynnig gwybodaeth syml i alluogi ymarferwyr yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector yng Nghymru i werthuso eu gwaith ac mae'n eistedd ochr yn ochr â'r pecyn cymorth Gwerthuso Gwaith Ymgysylltu. Mae'r pecyn cymorth yn darparu canllawiau penodol clir ynghylch sut i werthuso gweithgareddau ymgysylltu ac mae'r canllaw hwn yn canolbwyntio ar bob agwedd ar waith gwerthuso.

Bydd chwiliadau ar-lein am 'dechnegau gwerthuso' yn datgelu amrywiaeth dryslyd o fframweithiau, offer a chyfarwyddiadau a all ymddangos yn gymhleth. Hefyd, wrth chwilio am arweiniad ar werthuso, gall fod yn anodd dod o hyd i wybodaeth nad yw'n gysylltiedig â dull, offeryn, theori newid penodol neu wedi'i hanelu at sector penodol.

Dylai gwaith gwerthuso gynnwys cymunedau sydd wedi cymryd rhan mewn prosiectau neu weithgareddau, ond bydd y modd y gwneir hyn yn amrywio yn ôl y gwaith dan sylw, y cyfleoedd ynghlwm â'r gwaith a chyfyngiadau a therfynau'r prosiect sy'n cael ei werthuso.

## Diolchiadau

Ariannwyd y canllaw hwn gan CLlLC a'i reoli gan CGGC a gomisiynodd C.A.R.P. Collaborations i'w ddatblygu. Rydym yn ddiolchgar i'r ymarferwyr a ymatebodd i'r ddogfen ddrafft drwy e-bost, i'r Co-Pro Lab Cymru am gynnal sgwrs ar-lein gydag ymarferwyr ynghylch pwrpas a fformat y canllaw ac i'r mudiadau a'r unigolion hynny a oedd yn gallu cynnig enghreifftiau o'u gwaith gwerthuso.

# TAFLEN FFEITHIAU:
# TERMAU ALLWEDDOL YM MAES GWERTHUSO

Mae'r termau allweddol canlynol yn ymwneud yn benodol â gwerthuso neu'n cael eu hailadrodd i arbed y darllenydd rhag gorfod croesgyfeirio'n ormodol rhwng y gyfres o ddogfennau.

**'Dadansoddi'** - y broses o ddod â'r wybodaeth rydych chi wedi'i chasglu ynghyd i ddeall beth mae'n ei olygu.

**'Codau'** - ffordd o drefnu gwybodaeth rydych chi wedi'i chasglu i'w dadansoddi. Mae codau yn eich helpu i edrych ar wybodaeth debyg gan wahanol bobl. Gallai 'sgiliau' fod yn enghraifft o god, felly gallech drefnu'r holl atebion a roddodd pobl sy'n cyfeirio at sgiliau o dan yr un cod, i geisio darganfod a oes negeseuon cyffredin.

**'Cydwerthuso'** - proses o werthuso sy'n sicrhau bod y bobl sydd wedi profi darn o waith yn cael eu cynnwys yn llawn ac yn cymryd rhan yn y broses o werthuso sut cynhaliwyd y darn hwnnw o waith, gan gynnwys rhannu pŵer a gwneud penderfyniadau.

**'Ymgynghori'** - tasg ffurfiol, sydd fel arfer yn fyrhoedlog, lle mae llunwyr polisi neu asiantaethau darparu gwasanaethau yn gofyn i grwpiau o bobl sydd â diddordeb am eu barn a'u safbwyntiau ar bynciau penodol a chynlluniau sydd ar droed.

**'Cydgynhyrchu'** - dull, ethos a diwylliant lle mae pobl sy'n darparu ac yn cyflwyno gwasanaethau yn gweithio mewn partneriaeth gyfartal, yn rhannu pŵer ac yn gwneud penderfyniadau gyda phobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau hynny i gyrraedd atebion effeithiol a pharhaol.

**'Ymgysylltu'** - proses weithredol sy'n sicrhau y gall pobl sy'n defnyddio gwasanaethau neu sy'n cael eu heffeithio gan benderfyniadau a wneir gan wasanaethau neu lunwyr polisi gael eu gwahodd i gymryd rhan mewn gwaith datblygu, cyflwyno neu adolygu. Gall y broses ymgysylltu gwmpasu amrywiol ddulliau gan gynnwys ymgynghori, cynnwys a chydgynhyrchu.

**'Moeseg'** - y broses o sicrhau bod eich gwerthusiad yn ddiogel ac yn lleihau niwed.

**'Gwaith maes'** - y gwaith a wneir wrth gasglu'r data, neu, mewn geiriau eraill, pan fyddwch chi'n casglu'r atebion i'ch cwestiynau.

**'Caniatâd gwybodus'** - yr arfer o sicrhau bod cyfranogwyr yn deall yr hyn maen nhw'n ymwneud ag ef ac yn cytuno i gymryd rhan. Ni ddylent deimlo dan bwysau i gytuno, a gallant ddod â'u cyfranogiad i ben ar unrhyw adeg.

**'Cynnwys'** - gweithio gyda phobl sy'n defnyddio gwasanaethau neu sy'n cael eu heffeithio gan benderfyniadau, fel eu bod yn cael eu cynnwys yn y gwaith cynllunio, y gallant rannu eu barn a'u profiadau, er mwyn datblygu gwasanaethau mwy effeithiol a llywio'r broses o wneud penderfyniadau.

**'Dulliau cymysg'** - defnyddio dulliau meintiol ac ansoddol mewn gwerthusiad. Enghraifft bosibl fyddai eich bod chi'n defnyddio canran o atebion i'ch arolwg ar-lein, a dyfyniad o gyfweliad i esbonio'r ganran.

**'Cyfranogwyr'** - y bobl sy'n cymryd rhan yn eich gwerthusiad.

**'Cyfranogiad'** - proses lle mae cymunedau'n cymryd rhan mewn llunio gwasanaethau a llywio penderfyniadau, ond nid ydynt yn rhannu pŵer.

**'Data cynradd'** - gwybodaeth rydych chi'n ei chasglu eich hun ar gyfer eich gwerthusiad. Er enghraifft, yr atebion a roddodd cyfranogwyr i'r cwestiynau a greoch chi ar gyfer holiadur.

**'Data eilaidd'** - gwybodaeth sydd eisoes ar gael o ffynonellau eraill rydych chi'n eu defnyddio ar gyfer eich gwerthusiad. Er enghraifft, ystadegau ar gyfraddau ymgysylltu yng Nghymru, adroddiadau blynyddol neu gofnodion cyfarfod.

**'Rhanddeiliaid'** - gwahanol gymunedau (daearyddol, amrywiol a/neu arferion gwaith) sydd â buddiant ynghlwm â gwasanaeth neu benderfyniad.

**'Dulliau ansoddol'** - dulliau o gasglu gwybodaeth fanylach sydd fel arfer yn gysylltiedig â geiriau neu luniau. Byddai canlyniadau'n cael eu harddangos mewn dyfynodau, neu luniau a ddefnyddiwyd gan bobl i esbonio eu hatebion. Enghraifft fyddai cyfweliad a fyddai'n cynnwys cwestiynau agored ac yn gofyn i bobl esbonio beth oedd eu profiadau wrth gymryd rhan.

**'Dulliau meintiol'** - dulliau o gasglu gwybodaeth sy'n cael eu cyfrif fel rhifau. Byddai canlyniadau'n cael eu harddangos mewn graffiau neu siartiau, neu fel canrannau. Gallai enghreifftiau gynnwys canran y bobl a gliciodd ar ie i ateb cwestiwn, neu nifer y bobl a fynychodd sesiwn.

# RHESTR WIRIO I GYNLLUNIO GWERTHUSIAD

Nid yw'r camau hyn yn argymell un fframwaith ond maen nhw'n cynnig canllaw ymarferol o bethau i'w hystyried a'u cynllunio. Dylid amserlennu'r holl gamau cyn dechrau ar eich gwerthusiad gan y bydd hyn yn eich helpu i reoli amserlenni a staff yn effeithiol ac yn eich helpu i gynnwys cyfranogwyr mewn modd ystyrlon.

## Rhan A o'r rhestr wirio:
### Ystyried popeth

1. **Ydych chi wedi rhestru eich rhesymau dros werthuso eich gwaith?**
Rhestrwch yr holl rwymedigaethau statudol, gofynion cyllidwyr, atebolrwydd i gyfranogwyr a'r rhesymau eraill y mae angen i chi werthuso'ch gwaith.

2. **Ydych chi wedi nodi'n union beth rydych chi'n ei werthuso?**
Byddwch yn glir ynglŷn â'r hyn rydych chi'n ei werthuso ac ailystyriwch hyn yn rheolaidd i wneud yn siŵr eich bod chi'n aros ar y trywydd iawn.

3. **Ydych chi wedi gwneud rhestr o bwy rydych chi'n mynd i'w cynnwys?**
Arfer gorau fyddai cynnwys amrywiaeth o randdeiliaid a oedd yn rhan o'r broses: o'r tîm prosiect, grwpiau rhanddeiliaid roeddech chi'n ymgysylltu â nhw, partneriaid roeddech chi'n eu cynnwys a'r cyllidwyr neu'r comisiynwyr. Byddai hyn yn sicrhau eich bod yn cael mewnwelediadau gan amrywiaeth o safbwyntiau.

## Rhan B o'r rhestr wirio:
### Cynllunio

1. **Oes gennych chi gwestiynau penodol i'w gofyn?**
Gan ddefnyddio'r atebion i ran A o'r rhestr wirio, yn enwedig eich meini prawf ar gyfer 'beth ydych chi'n ei werthuso', lluniwch gwestiynau yr hoffech eu gofyn i'r bobl fydd yn cymryd rhan. Gwnewch y cwestiynau'n benodol yn hytrach na chwestiynau amwys: 'beth weithiodd/beth na weithiodd'.

2. **Ydych chi wedi dewis eich dulliau?**
Sicrhewch fod y dulliau y byddwch chi'n eu defnyddio yn cyfateb i'r cwestiynau rydych chi am eu gofyn a'r bobl rydych chi'n eu holi. Bydd y **'Daflen Ffeithiau: Technegau gwerthuso - ymdrin â rhifau heb fod yn arbenigwr ymchwil' a 'Thaflen Ffeithiau: Technegau gwerthuso - ymdrin â geiriau mewn gwerthusiadau heb fod yn arbenigwr ymchwil'** yn y canllaw hwn yn eich helpu i benderfynu pa ddulliau sydd orau i'w defnyddio i ateb eich cwestiynau.

3

**Ydych chi wedi paratoi unrhyw weithdrefnau moesegol y gallai fod eu hangen arnoch chi?**
Gwnewch yn siŵr eich bod wedi lleihau niwed a chynyddu'r manteision drwy ofyn cwestiynau sy'n ddiogel yn emosiynol a bod gennych weithdrefnau ar gyfer pethau fel diogelu, cyfrinachedd, caniatâd gwybodus, chwythu'r chwiban, a storio gwybodaeth yn ddiogel. Bydd y **'Trosolwg: Moeseg gwerthuso'** yn y canllaw hwn yn eich helpu i feddwl am yr ystyriaethau moesegol gwahanol i'w rhoi ar waith.

4

**Ydych chi wedi gwneud amserlen werthuso fesul wythnos?**
Cyfrifwch faint o amser y bydd y gwahanol gamau a gweithgareddau'n ei gymryd a'u trefnu'n amserlen wythnosol. Caniatewch fwy o amser nag yr ydych chi'n meddwl y bydd ei angen arnoch chi bob amser gan ei fod yn cymryd peth amser i bobl ymateb i gymryd rhan mewn gwerthusiadau, a gall dadansoddi ac ysgrifennu adroddiad fod yn broses hirach nag a ddychmygwyd yn aml. Canllaw bras yw dyrannu hyd at draean o'ch amser i gynllunio a dylunio, traean i wneud gwaith maes, a thraean i ddadansoddi ac ysgrifennu.

5

**Oes gennych chi gynllun ar gyfer recriwtio rhanddeiliaid i gymryd rhan?**
Dylid mapio'r cysylltiadau allweddol. Gwnewch yn siŵr bod pobl sy'n cymryd rhan yn deall beth mae'n ei olygu ac nad ydyn nhw'n teimlo dan bwysau i gytuno. Dylid datblygu eich protocolau moesegol gan ddefnyddio'r **'Trosolwg: Moeseg gwerthuso'** yn y canllaw hwn a defnyddiwch y templed caniatâd gwybodus yn Atodiad 1 i greu eich un eich hun.

## Rhan C o'r rhestr wirio:
### Mynd allan a'i wneud

1

**Oes gennych chi leoliadau?**
Archebwch y rhain ymlaen llaw, a gwnewch yn siŵr eu bod yn hygyrch ac yn briodol ar gyfer eich dulliau. Os ydych chi'n defnyddio dulliau creadigol, efallai y bydd angen lle mwy arnoch chi. Mae'n debyg y bydd cyfweliadau wyneb yn wyneb yn gofyn am ystafelloedd tawel i ffwrdd o unrhyw beth all dynnu sylw. Ceisiwch gyfyngu ar faterion fel rhwystrau trafnidiaeth.

2

**Oes gennych chi gyfranogwyr a chymorth?**
Sicrhewch fod pobl wedi cadarnhau eu bod yn mynychu digwyddiadau gwerthuso neu eu bod ar gael i gynnal cyfweliadau neu gwblhau arolygon. Os ydych chi'n cynnal arolwg neu holiadur, gwnewch yn siŵr eich bod chi wedi rhoi gwybod i gyfranogwyr am eich gwerthusiad cyn anfon dolen neu gwestiynau atynt. O ran llwyth gwaith gwerthuso, gwnewch yn siŵr bod gennych ddigon o bobl yn eich tîm i wneud yr holl weithgareddau wyneb yn wyneb rydych chi wedi'u cynllunio. Ystyriwch baru setiau sgiliau pobl â'r gweithgareddau a thasgau.

3 **Ydych chi wedi ystyried hawliau diogelu data a gwybodaeth ddiogel?**
Meddyliwch am sut rydych chi'n mynd i gofnodi'r wybodaeth a'i storio'n ddiogel, yn enwedig os ydych chi'n defnyddio recordwyr llais neu gamerâu. Gwnewch yn siŵr bod y lle rydych chi'n storio gwybodaeth wedi'i ddiogelu gan gyfrinair a bod copïau caled o wybodaeth yn cael eu sganio a'u dinistrio'n ddiogel neu eu cadw mewn cwpwrdd ffeilio dan glo.

4 **Ydych chi wedi gwneud rhestr o'r 'adnoddau sydd eu hangen arnaf'?**
Sicrhewch fod popeth sydd ei angen arnoch yn ei le cyn i chi fynd allan i gwrdd â phobl. Os ydych chi'n defnyddio dulliau creadigol, efallai y bydd angen deunyddiau celf neu deganau arnoch chi, os ydych chi'n cynnal arolwg efallai y bydd angen i chi ddysgu rhaglen feddalwedd.

5 **Ydych chi wedi trefnu sesiynau ôl-drafodaeth?**
Ar ôl digwyddiadau cyfranogi neu ar ddiwedd arolwg, caniatewch amser ar gyfer cyfarfodydd y tîm gwerthuso. Os yw'n werthusiad unigol, gwnewch yn siŵr bod gennych chi rywun y gallwch chi siarad ag ef a all eich helpu a'ch tywys drwyddo.

# Rhan Ch o'r rhestr wirio:

## Deall yr hyn rydych chi wedi'i ddarganfod a'r hyn y mae'n ei olygu

1 **Ydych chi wedi caniatáu digon o amser i ddadansoddi ac ysgrifennu?**
Gwnewch yn siŵr bod gennych ddigon o amser wedi'i neilltuo i edrych ar y wybodaeth rydych chi wedi'i chasglu a'r hyn y mae'n ei olygu.

2 **Ydych chi wedi ateb eich cwestiynau 'beth i'w werthuso' a 'pham gwerthuso'?**
Ewch yn ôl at y cwestiynau a ysgrifennoch chi yn Rhan A o'r rhestr wirio hon a gwnewch yn siŵr bod gennych chi atebion neu y gallwch chi nodi'n glir beth nad ydych chi wedi'i ddarganfod.

3 **Ydych chi wedi nodi eich techneg dadansoddi?**
Defnyddiwch yr is-adrannau dadansoddi ar **'Taflen ffeithiau: ymdrin â rhifau'** a **'Taflen ffeithiau: ymdrin â geiriau'** i nodi sut i ddadansoddi.

# Rhan D o'r rhestr wirio:
## Dweud wrth eraill beth rydych chi wedi'i ddarganfod

1. **Ydych chi wedi nodi'r bobl sydd angen clywed eich canfyddiadau?**
Gwnewch restr benodol o aelodau etholedig, mudiadau a phobl allweddol sydd angen gwybod beth oedd canfyddiadau eich gwerthusiad.

2. **Sut byddwch chi'n dweud wrthyn nhw beth rydych chi wedi'i ganfod drwy eich gwerthusiad?**
Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n mynd yn ôl at y bobl a oedd yn rhan o'r broses i ddweud wrthyn nhw beth wnaethoch chi ei ddarganfod mewn ffordd sy'n ddealladwy iddynt.

3. **A yw'r dulliau a'r wybodaeth ar gyfer rhannu canfyddiadau yn hygyrch?**
Ystyriwch anghenion hygyrchedd, a sut i wneud eich canfyddiadau yn glir ond yn hawdd eu deall gan ddefnyddio crynodebau, ffeithluniau a digwyddiadau anffurfiol.

# TAFLEN FFEITHIAU:
# BETH A PHRYD I'W WERTHUSO

## Beth i'w werthuso

Mae ystod o fodelau gwerthuso ar gael. Yn hytrach na hyrwyddo un model, mae'r daflen ffeithiau hon yn cyfeirio at wahanol fathau o werthusiadau. Wrth ymgymryd ag unrhyw werthusiad mae'n bwysig meddwl am y gwerth rydych chi'n ei werthuso.

Gall cyfeirio at yr enghreifftiau o arferion datblygol yn Atodiadau 2-6 helpu i sefydlu beth rydych chi'n ei werthuso. Efallai y bydd cyllidwyr am weld allbynnau, bydd cyfranogwyr eisiau siarad am brofiad, a bydd mudiadau a chyllidwyr yn aml eisiau gwybod pa effaith y mae'r gwaith wedi'i chael a beth y gellir ei ddysgu.

Nid oes yr un o'r rhain yn bwysicach nag un arall, ac ni ddylid anwybyddu safbwyntiau cyfranogwyr.  Er mwyn helpu i wahanu'r gwahanol fuddiannau hyn a sicrhau bod gan werthusiad ffocws clir, gallwch weithio yn ôl tri maen prawf gwahanol:

**Nodau - a gyflawnoch chi allbynnau'r prosiect?**
**Er enghraifft:**
Pwy oedd eich gwaith yn ymgysylltu â nhw, ac ai'r bobl a fwriadwyd yn wreiddiol oedden nhw? Pa dasgau a nodau ydych chi wedi'u cyflawni a sawl gwaith? Ydych chi wedi bodloni unrhyw ddangosyddion prosiect?

**Proses - Pa fecanweithiau a ddefnyddiwyd i gyflawni'r gwaith?**
**Er enghraifft:**
Sut oedd cymunedau'n rhan o hyn? Pa weithgareddau prosiect oedd fwyaf llwyddiannus a sut ydych chi'n gwybod hyn? A wnaeth eich prosesau alluogi i leisiau cyfranogwyr y prosiect gael eu clywed? Beth yw eu barn nhw am ansawdd eich gwaith gyda nhw?

**Canlyniadau - Beth fu'r effaith?**
**Er enghraifft:**
A yw aelodau'r gymuned wedi dod yn fwy hyderus a sut ydych chi'n gwybod hyn? Beth maen nhw'n mynd i fynd ymlaen i'w wneud? Pa ddysgu sydd wedi bod i'r mudiad? A oes enghreifftiau o arferion datblygol?

## Pryd i werthuso

Gallwch werthuso naill ai wrth i chi gyflawni eich gwaith ymgysylltu neu tua diwedd eich gwaith.

## Gwerthusiad ffurfiannol

Mae gwerthusiad ffurfiannol yn golygu eich bod chi'n stopio ac yn asesu'r sefyllfa wrth i'r gwaith ymgysylltu ddatblygu. Mae gwerthusiad ffurfiannol yn defnyddio adborth o bob cam o'r broses waith i olrhain pa mor dda mae eich gwaith yn mynd rhagddo ac yn eich galluogi i newid eich gweithgareddau neu'ch dulliau os oes angen. Mae Atodiadau 2 a 6 yn rhoi enghreifftiau o werthusiadau ffurfiannol.

## Gwerthusiad crynodol

Gwerthusiad crynodol yw pan fyddwch chi'n aros tan ddiwedd y gwaith ymgysylltu ac yn gwerthuso nodau, proses a/neu ganlyniadau ar ôl i'r gwaith ddod i ben. Gallwch barhau i ddefnyddio adborth a gafwyd gan aelodau'r gymuned, ond mae'n llywio 'gwersi a ddysgwyd' yn hytrach nag yn llywio datblygiad y broses o gynnwys pobl ei hun. Mae Atodiadau 3 a 4 yn cynnig enghreifftiau o werthusiadau crynodol.

Unwaith y byddwch chi wedi sefydlu pryd rydych chi'n cynnal eich gwerthusiad a pha nodau, prosesau a chanlyniadau penodol rydych chi am gael gwybod amdanynt, rydych chi'n barod i ddylunio eich gwerthusiad. Nid yw'n bosibl gwerthuso popeth ond bydd bod yn glir ynghylch hyd a lled y gwaith a'r hyn sy'n bwysig i'r gwahanol randdeiliaid yn sicrhau bod eich gwerthusiad yn gytbwys ac yn cynnwys gwahanol leisiau.

# HUNANWERTHUSO GWAITH YMGYSYLLTU NEU GOMISIYNU ASIANTAETH ALLANOL?

Mae **'hunanwerthuso'** yn cyfeirio at gynnal gwerthusiad eich hun, felly rydych chi'n gwerthuso eich gwaith eich hun.

Mae **'gwerthusiad annibynnol'** yn cyfeirio at eich gwaith yn cael ei werthuso gan asiantaeth allanol.

Er mwyn i werthusiad annibynnol fod yn wirioneddol wrthrychol ac yn annibynnol ar y ddarpariaeth gwasanaethau, mae angen gwahanu'r cyllid ar gyfer y gwerthusiad oddi wrth y mudiad sydd wedi bod yn gwneud y gwaith. Mae hyn yn aml yn anodd ei gyflawni gyda llawer o ffynonellau ariannu.

Mae cynifer o werthusiadau yn ddull hybrid lle mae asiantaeth allanol sydd ag arbenigedd mewn gwerthuso yn cael ei chomisiynu i oruchwylio'r broses a chynnal gwaith maes cynradd. Serch hynny, maen nhw'n gweithio mewn partneriaeth â'r mudiad sydd wedi cyflawni'r gwaith. Gall hyn gynnwys defnyddio gwybodaeth maen nhw eisoes wedi'i chasglu fel data eilaidd, fel nifer y cyfranogwyr, adborth cyfranogwyr a chofnodion cyfarfodydd.

## Manteision hunanwerthuso

- Gall eich gwaith cyflawni o ddydd i ddydd gysylltu'n hawdd â'ch gwaith gwerthuso. Os ydych chi'n cynnal gwerthusiad ffurfiannol, gellir cynnwys canfyddiadau'r gwerthusiad yn hawdd yn y prosesau cyflawni.
- Bydd y cyfranogwyr yn adnabod y gweithwyr eisoes ac felly mae deinameg tîm da yn bodoli.

## Anfanteision hunanwerthuso

- Gall y gwaith gwerthuso gael ei gymysgu â'r gwaith cyflawni gan greu dryswch mewn rhaglenni gwaith a diffyg eglurder yng nghanfyddiadau'r gwerthusiad.
- Gall pobl nad ydynt yn ymchwilwyr ei chael hi'n anodd dadansoddi data a thanamcangyfrif yr amser y mae'n ei gymryd i'w wneud yn drylwyr.
- Nid yw'n bosibl bod yn wrthrychol wrth werthuso eich gwaith eich hun. Efallai y byddwch chi o’r farn nad yr hyn a ddywedodd y cyfranogwyr a ddigwyddodd yw’r hyn a welsoch chi yn digwydd.
- Efallai na fydd cyfranogwyr eisiau eich siomi ac felly mae’n bosibl y gallent ateb eich cwestiynau yn ôl yr hyn maen nhw'n credu eich bod chi eisiau ei glywed.

## Manteision gwerthusiad annibynnol

- Mae'r gwahaniad rhwng gwaith a gwerthuso yn glir ac yn ychwanegu at wrthrychedd. Mae hyn yn golygu bod y canfyddiadau'n fwy tebygol o fod yn ddilys.
- Gall pob cyfranogwr siarad yn rhydd am brofiadau heb boeni am beryglu teimladau na newid cysylltiadau personol.
- Mae gwerthuswr yn arbenigwr mewn rheoli data ac felly mae ganddo'r sgiliau sydd eu hangen i reoli gwaith dadansoddiad ac agweddau mwy cymhleth eraill ar werthuso.

## Anfanteision gwerthusiad annibynnol

- Mae'n cymryd amser i recriwtio gwerthuswr allanol a dechrau'r gwerthusiad.
- Gall fod pellter rhwng cyfranogwyr y prosiect a'r gwerthuswr.
- Mae angen treulio amser yn datblygu partneriaeth gadarnhaol gyda gwerthuswr allanol a sefydlu prosesau gwneud penderfyniadau a chyfranogi.

Mae'r mudiad byd-eang, ‘Better evaluation’ yn rhoi trosolwg defnyddiol o wrthrychedd a rheoli gwerthusiadau.

# CYMRYD RHAN YN Y GWERTHUSO

Mae gwahanol ffyrdd y gall cymunedau fod yn rhan o werthusiad ac mae safonau cyfredol ar gyfer cynnwys y cyhoedd mewn gwaith ymchwil. Mae gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru enghraifft academaidd o lyfryn o'r math o wybodaeth sydd ei hangen ar bobl cyn ymwneud ag ymchwil neu werthuso.

Mae Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru wedi cynhyrchu adnodd gwybodaeth sain am gydgynhyrchu a gwerthuso yn cynnwys Alain Thomas, arbenigwr mewn gwerthuso cyfranogol ac ymgysylltu â'r cyhoedd.

Dylai cyd-werthuso ddilyn yr Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd a chynnwys gwneud penderfyniadau ar y cyd rhwng y gwerthuswyr a'r cyfranogwyr. Fodd bynnag, nid yw cyd-werthuso yn golygu bod rhaid i bawb gyflawni pob rôl.

## Creu grŵp llywio neu grŵp cyfeirio

Dyma’r grwpiau sy'n llywio cyfeiriad prosiect, sy'n cynnwys arbenigwyr a all weithredu fel cyfaill beirniadol. Dylai fod digon o aelodau o'r gymuned i osgoi symbolaeth, estyn allan i gymunedau na chlywir eu llais yn aml, a defnyddio prosesau ac amseroedd cyfarfod hygyrch. Mae Atodiad 5 yn cynnig enghraifft o weithio gyda grŵp i gyd-ddylunio offeryn gwerthuso.

## Cynnwys gwerthuswyr profiad bywyd yn y tîm

Cyfeirir at aelodau’r gymuned sydd â phrofiad o brosiect, ymyrraeth neu brofiad cymdeithasol penodol fel pobl â phrofiad bywyd. Gallant gael eu cynnwys yn y tîm gwerthuso a chyflawni rôl werthuso lawn. Os ydych chi'n gweithio gyda gwerthuswyr profiad bywyd, gwnewch yn siŵr eich bod wedi ystyried tâl a hyfforddiant.

## Defnyddiwch amrywiaeth o ddulliau i ymgysylltu â chyfranogwyr

Bydd angen rhywfaint o ymgysylltiad gan gyfranogwyr ar gyfer pob gwerthusiad. Gall hyn amrywio o gwblhau arolwg i gymryd rhan mewn cyfweliad neu grŵp ffocws. Mae Atodiad 3 yn cynnig enghraifft o sut i ddefnyddio ffilm ac mae Atodiad 4 yn defnyddio cyfweliadau fel sgwrs.

## Cyd-rannu

Gall aelodau’r gymuned sydd wedi bod yn rhan o’r broses rannu canfyddiadau’r gwerthusiad ochr yn ochr â’r gwerthuswyr. Gall hyn fod yn arbennig o ddefnyddiol os oes digwyddiad, neu fideo wedi'i wneud o'r gwaith ymgysylltu a wnaed. Mae Atodiad 3 yn cynnig enghraifft o wneud ffilm ar gyfer gwerthuso.

# MOESEG GWERTHUSO

Bydd rhywfaint o waith prosiect yn ymdrin â moeseg fel caniatâd i gymryd rhan, diogelu data, cyfrinachedd a diogelu. Ond ni fydd rhai elfennau o waith yn cynnwys y materion hyn ac felly bydd angen i'ch gwerthusiad gynnwys rhai gweithdrefnau moesegol.

## Diogelu data

Deddf Diogelu Data 2018 yw gweithrediad y DU o'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR). Os oes gennych wybodaeth bersonol, adnabyddadwy am unigolion, rhaid i chi roi gwybod iddynt pa wybodaeth sydd gennych, sut rydych yn ei chadw a beth fyddwch yn ei wneud â hi. Ar gyfer gwerthusiad mae ffyrdd o sicrhau bod pobl yn aros yn ddienw fel casglu manylion ardal ward, pentref neu dref yn hytrach na chyfeiriad, codio enwau fel nad yw enwau go iawn yn cael eu defnyddio, oedran yn hytrach na dyddiad geni ac ati. Mae rhagor o ganllawiau ar gael yn https://www.gov.uk/data-protection

## Diogelu

Dylai fod gweithdrefnau bob amser i sicrhau bod oedolion, plant a phobl ifanc sy’n agored i niwed yn cael eu diogelu mewn gwerthusiad. Mae archwilio profiadau pobl yn cynnig lle ar gyfer datgeliadau o gam-drin ac felly dylai gweithdrefnau gynnwys arweinydd diogelu wedi’i enwi, gweithdrefnau ar gyfer dargyfeirio datgeliadau i gyfoedion os ydych chi'n gweithio mewn grŵp a rhagofyniad wrth gasglu caniatâd gwybodus sy'n rhoi gwybod i gyfranogwyr os yw rhywun yn cael ei niweidio y bydd yn rhaid cymryd camau gweithredu.

Nid yw diogelu mewn cyd-destun gwerthuso yn wahanol i ddiogelu mewn cyd-destunau eraill, ond os oes gennych ddiddordeb, mae rhagor o wybodaeth am ddiogelu mewn ymchwil ar gael gan y Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer ymchwil iechyd a gofal.

## Chwythu’r chwiban

Gall gwrando ar straeon a phrofiadau pobl ddatgelu agweddau ar arferion gwael yn eich mudiad chi, neu fudiad partner. Bydd sicrhau bod gennych weithdrefnau ar waith yn galluogi camau gweithredu clir i adrodd am gamymddwyn. Dylai fod gan eich mudiad bolisïau cyfredol ac mae Archwilio Cymru a CGGC wedi cynhyrchu canllawiau defnyddiol am y pwnc hwn.

## Adrodd am droseddau casineb

Os bydd datgeliad trosedd casineb yn codi yn ystod y gwerthusiad, dylai gwerthuswyr weithredu. Mae'r ganolfan genedlaethol ar gyfer adrodd am droseddau casineb trydydd parti yn cael ei rhedeg gan gymorth i ddioddefwyr ac mae rhagor o wybodaeth am adrodd am droseddau casineb ar gael ganddynt.

## Caniatâd gwybodus

Os nad yw cyfranogwyr wedi cydsynio i werthusiad ar yr un pryd â chydsynio i fod yn rhan o'r prosiect neu'r gwasanaeth, dylai gwerthuswyr eu hysbysu'n benodol am bwrpas y gwerthusiad a chael eu caniatâd ysgrifenedig i fod yn rhan o'r gwerthusiad. Mae ffurflen ganiatâd yn amrywio rhwng mudiadau, ond yn ei hanfod dylai gynnwys disgrifiad o beth fydd y gwerthusiad yn ei olygu, pa bynciau a themâu y byddwch chi’n gofyn i gyfranogwyr eu trafod, esboniad o hawliau diogelu data, esboniad o'r hyn a wneir â'r wybodaeth maen nhw’n ei rhoi, a datganiad penodol y gallant dynnu eu cyfranogiad a/neu'r wybodaeth yn ôl ar unrhyw adeg. Dylid llofnodi a dyddio hyn. Mae templed ffurflen ganiatâd ar gael yn Atodiad 1.

## Moeseg ar gyfer gweithio gyda chyd-werthuswyr

Os yw eich gwerthusiad o waith ymgysylltu yn cynnwys cyfranogwyr fel cyd-werthuswyr, dylech hefyd ystyried sut rydych chi'n mynd i ddigolledu neu dalu cyfranogwyr am eu hamser, pa hyfforddiant y gallai fod ei angen neu ei eisiau arnynt a pha lefel o reolaeth prosiect a bugeiliol sydd ei hangen arnynt.

# TAFLEN FFEITHIAU: TECHNEG GWERTHUSO – YMDRIN Â RHIFAU HEB FOD YN ARBENIGWR YMCHWIL

Cyfeirir at hyn fel ‘meintiol’: mae defnyddio rhifau yn helpu i ateb cwestiynau am ‘faint’ a gellir defnyddio gwybodaeth rifiadol hefyd i werthuso nodau/allbynnau, prosesau a chanlyniadau.

1. I adrodd am allbynnau (e.e. faint o adroddiadau, niferoedd mewn digwyddiad rhannu, faint o ddigwyddiadau rhannu) mae angen monitro niferoedd yn ofalus wrth i’ch gwaith ddatblygu fel y gellir cyfrifo allbynnau ar ddiwedd y gwaith.

2. I adrodd am brosesau (e.e. nifer y sesiynau, faint o gyfranogwyr sydd wedi ymwneud â gwahanol dasgau) a demograffeg cyfranogwyr (e.e. ystodau oedran a hunaniaethau eraill) mae angen i chi sefydlu system fonitro sy'n cofnodi'r manylion hyn ar gyfer pob tasg yn y gwaith dan sylw. Mae hyn wedyn yn golygu y gallwch chi adio rhifau at ei gilydd i gael manylion terfynol ynglŷn â faint o sesiynau a gyflwynwyd gennych chi a phwy a gymerodd ran yn beth. Meddyliwch am sut y byddwch chi'n cofnodi nifer y cyfranogwyr os oes gennych chi bobl sy'n dychwelyd, sut i fesur gwaith allgymorth lle nad ydych chi efallai wedi ymgysylltu ag unrhyw un a nodi ble y gallech chi ddod ar draws anghysondebau rhifiadol yn eich gwaith monitro.

3. I adrodd am ganlyniadau mewn modd rhifiadol, mae angen i chi ddysgu am farnau ac mae 3 phrif ffordd o wneud hyn gan ddefnyddio rhifau:

   **a.** Gofynnwch gwestiynau na ellir ond eu hateb gydag ie neu na a gweld faint o gyfranogwyr sy'n ateb 'ie' a faint sy'n ateb 'na'.

   **b.** Gofynnwch gwestiwn graddio, y hawsaf ohonynt yw Graddfa Likert. Mae hyn yn cynnwys datganiad a gofyn i gyfranogwyr raddio i ba raddau y maent yn cytuno â'r datganiad.

   **c.** Mesurwch y gwahaniaeth y mae'r gwaith wedi'i wneud drwy ofyn i gyfranogwyr sgorio meini prawf penodol (fel hyder) cyn y gwaith ac yna eto ar ôl y gwaith. Drwy gymharu’r sgôr gychwynnol â’r sgôr ddiweddarach, mae’r gwerthuswr yn cael syniad p’un a yw’r gwaith wedi helpu i gynyddu lles neu sgiliau’r cyfranogwyr.

Nid oes rhaid i chi fod yn arbenigwr mewn defnyddio rhifau i ddeall yr hyn rydych chi wedi'i ddarganfod. Mae yna lawer o becynnau meddalwedd gwahanol ar gael nawr y gallwch eu defnyddio, sy'n gwneud llawer o'r gwaith dadansoddi i chi hefyd. Mae hyn yn golygu eu bod yn llunio'r atebion mewn diagramau, siartiau neu dablau. Gallwch ddefnyddio llawer ohonyn nhw am ddim neu gofrestru ar gyfer treial am ddim. Gallwch hefyd dalu am fynediad at fwy o gynnwys neu swyddogaethau. Gall y pecynnau meddalwedd hyn gyflwyno'r atebion i'ch cwestiynau mewn siartiau a thablau hawdd eu deall, gall y rhan fwyaf hefyd greu cymylau geiriau, fel y gallwch weld pa eiriau sydd fwyaf poblogaidd. Isod mae rhai pecynnau a ddefnyddir yn aml:

**Survey Monkey:** mae'r feddalwedd hon yn caniatáu ichi greu holiaduron ar-lein a rhannu dolenni gyda phobl i ateb eich cwestiynau. Mae Survey Monkey hefyd yn caniatáu ichi ddefnyddio lluniau neu fideos i wneud cwestiynau'n fwy hygyrch a diddorol.
https://www.surveymonkey.com/

**Microsoft Forms:** fel Survey Monkey, mae Microsoft Forms yn caniatáu ichi greu holiaduron ar-lein a rhannu dolenni gyda phobl i ateb eich cwestiynau
https://forms.office.com/

**Mentimeter:** mae mentimeter yn feddalwedd sy'n eich galluogi i rannu'r atebion i'ch cwestiynau'n fyw, wrth i chi eu casglu. Gallwch ddefnyddio Mentimeter i droi eich holiadur yn gêm ryngweithiol.
https://www.mentimeter.com/

Dylai gwerthusiad hefyd gasglu gwybodaeth am gyfranogwyr fel ystod oedran, rhyw, nodweddion gwarchodedig a'r ardal y maent yn byw ynddi. Mae hyn yn eich helpu i weld pwy rydych chi'n ymgysylltu'n dda â nhw a ble mae’r bylchau. Mae'n arbennig o bwysig sicrhau eich bod chi'n gweithio gyda phobl nad yw eu lleisiau’n cael eu clywed yn aml.

Efallai eich bod eisoes wedi casglu rhywfaint o wybodaeth rifiadol wrth wneud eich gwaith. Gellir defnyddio hyn ar gyfer gwerthusiad fel 'data eilaidd'. Er ei fod eisoes yn bodoli, gellir ei lunio gyda rhifau eraill, ei gymharu neu ei ddefnyddio i esbonio nodau neu allbynnau, prosesau a chanlyniadau.

Gallwch wneud gwerthusiad ‘dull cymysg’ drwy gasglu data rhifiadol a chasglu data ansoddol, naratif.

# TAFLEN FFEITHIAU: YMDRIN Â GEIRIAU MEWN GWERTHUSIADAU HEB FOD YN ARBENIGWR YMCHWIL

Cyfeirir at hyn fel ymchwil ‘ansoddol’; bydd darganfod beth mae pobl yn ei feddwl a chlywed am eu profiadau yn eich helpu i ateb cwestiynau am ‘ystyr’ fel ‘pa fath o effaith a gafodd ein gwaith ar gyfranogwyr?’ a ‘beth a fwynhaodd cyfranogwyr yn arbennig a pham?’ Er ein bod ni wedi arfer gweithio gyda geiriau yn ein bywydau bob dydd, mae yna rai pethau i fod yn ymwybodol ohonynt i sicrhau eich bod chi'n gofyn y pethau cywir yn y ffordd gywir wrth gynnal gwerthusiad. Mae'r adran hon yn edrych ar ddulliau gwerthuso sy'n seiliedig ar eiriau cyn egluro sut i'w dadansoddi.

## Cynnal cyfweliadau

Dylai cyfweliad deimlo'n anffurfiol ac fel sgwrs. Dylai fod gennych rai cwestiynau wedi'u paratoi ymlaen llaw i'w gofyn i gyfranogwyr sy'n cyfateb yn uniongyrchol i'r cwestiynau 'Beth rydw i'n ei werthuso' a 'pam rydw i'n ei werthuso'. Mae'r Brifysgol Agored yn cynnig gwybodaeth fanylach am wahanol fathau o gyfweliadau a phethau i feddwl amdanynt. Dylech chi hefyd feddwl am sut rydych chi'n recordio manylion yr hyn a ddywedir wrthych chi - gellir cymryd recordiad sain a'i drawsgrifio gan ddefnyddio isdeitlau Microsoft Teams, Word neu YouTube, ond byddwch yn ymwybodol o’r modd y gallai pecynnau drawsgrifio yn wallus iawn. Os byddwch chi'n trawsgrifio sgriptiau eich hun, mae'n cymryd cryn dipyn o amser. Gall rhai pobl deipio tra bod pobl yn siarad, a bydd eraill yn cymryd nodiadau ysgrifenedig. Gwnewch yn siŵr eich bod yn cofnodi cymaint â phosibl, nid dim ond yr hyn rydych chi'n teimlo yw'r pwyntiau pwysicaf.

## Hwyluso grwpiau ffocws

Mae grŵp ffocws yn cynnwys gofyn cwestiynau penodol i grŵp o gyfranogwyr a hwyluso sgwrs rhyngddynt am bynciau'r cwestiynau gosod. Mae grŵp ffocws da yn cynnwys amcanion clir, grŵp amrywiol a chyfforddus o 6-10 o gyfranogwyr, hwylusydd medrus, cwestiynau agored a diduedd mewn llif rhesymegol, ac amgylchedd diogel a chyfrinachol. Y prif nod yw casglu mewnwelediadau manwl drwy ryngweithiadau grŵp, nid cynhyrchu data y gellir ei gyffredinoli.

## Defnyddio dulliau creadigol

Mae llawer o bobl yn mynegi eu hunain mewn sawl ffordd ac efallai y bydd rhai cymunedau'n ei chael hi'n haws defnyddio technegau creadigol i esbonio eu profiadau. Mae'r Newid Mwyaf Arwyddocaol yn ddull sy'n galluogi lefelau uchel o gyfranogiad o safbwynt gwerthuso a fframwaith ar gyfer dadansoddi'r wybodaeth.

## Dadansoddi geiriau

Gall fod yn anodd gwybod beth i'w wneud â thudalennau o straeon neu feddyliau. Mae rhai pecynnau cyfrifiadurol yn helpu i 'godio' geiriau (e.e. Nvivo) ond gall fod yn anodd i'r rhai nad ydynt yn arbenigwyr ymchwil ddefnyddio'r rhain. Mae rhai ymchwilwyr yn arbrofi gyda deallusrwydd artiffisial, er bod cywirdeb y dull hwn yn dibynnu ar sgil yr ymchwilydd a pha mor gyfarwydd â'r offer ydyw. Mae yna sawl canllaw academaidd ar gyfer cynnal dadansoddiad thematig. Mae'r adran hon yn cynnig trosolwg cam wrth gam, ond rydym yn argymell dysgu mwy am sut i godio a phennu themâu data cyn ymgymryd â'r dasg.

Y ffordd hawsaf o reoli'r wybodaeth hon yw ei rhannu yn ôl y camau canlynol:

1. Ymgyfarwyddo â'r sgriptiau. Er y gallech feddwl eich bod chi'n gwybod beth mae pobl wedi'i ddweud, bydd gennych chi ragdybiaethau cudd ac mae'n naturiol anghofio agweddau ar y ddeialog. Cymerwch amser i ddarllen pob sgript yn drylwyr.

2. Codio eich data. Rhannwch bob sgript cyfweliad neu grŵp ffocws yn gategorïau bach, y gellir eu gwahaniaethu'n glir. Mae rhai ymchwilwyr yn defnyddio lliw i wahaniaethu rhwng categorïau bach, gan gadw allwedd fel eu bod nhw'n gwybod pa liw sy'n cyfeirio at ba gategori. Gallai enghraifft o ddau gategori gynnwys 'ennill hunan-barch drwy gefnogi cyfoedion' ac 'ennill hunan-barch drwy ddysgu rhywbeth newydd - cael eich herio'.

3. Unwaith y byddwch wedi codio'ch holl ddata naratif yn gategorïau, edrychwch ar sut maen nhw'n ffitio gyda'i gilydd ac yn creu themâu mawr. Gan ddefnyddio'r ddwy enghraifft, un thema fawr fyddai 'cynnydd mewn hunan-barch'.

4. Cymharwch eich dadansoddiad rhwng gwahanol fathau o gyfranogwyr. Er enghraifft, ydy asiantaethau partner yn meddwl yn wahanol i'ch cyfranogwyr o'r gymuned? A oes gwahaniaethau mewn profiad yn ôl oedran neu ardaloedd?

5. Unwaith y bydd gennych themâu, is-gategorïau a gwahaniaethau o ran cymhariaeth gallwch lunio trefn resymegol i gyflwyno eich gwybodaeth. Gall eich themâu mawr orgyffwrdd â chanlyniadau'r prosiect a osodwyd gennych. Os felly, dylid gwahaniaethu rhwng y canlyniadau yr oeddech yn bwriadu eu cyflawni a'r canlyniadau fu'n annisgwyl.

Efallai eich bod wedi casglu straeon neu astudiaethau achos pobl fel rhan o'ch gwaith. Gallwch ddefnyddio gwybodaeth o'r rhain, ochr yn ochr â gwybodaeth o unrhyw adroddiadau neu gofnodion cyfarfodydd sy'n bodoli eisoes fel 'data eilaidd' i gyd-fynd â'ch dadansoddiad ansoddol. Gallwch wneud gwerthusiad 'dull cymysg' drwy gasglu data ansoddol, naratif a rhywfaint o gasglu data rhifiadol.

# TAFLEN FFEITHIAU: ADNODDAU A GWYBODAETH BELLACH

Mae'r adran hon yn cynnig detholiad o drosolygon mwy cyffredinol ynghylch gwerthuso a all helpu'r darllenydd i gynnal ei werthusiad ei hun.

Nod New Philanthropy Capital yw cefnogi trydydd sector y DU a chynnal rhai adnoddau i gefnogi arferion gwerthuso.
https://www.thinknpc.org/categories/impact-measurement-evaluation-and-data/

Mae Canolfan Genedlaethol Dulliau Ymchwil y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol yn cynnwys amrywiaeth o wybodaeth academaidd fanwl am wahanol ddulliau ymchwil.
https://www.ncrm.ac.uk/resources/online/

Mae Better Evaluation yn gymuned fyd-eang sy'n anelu at gefnogi arferion gwerthuso da. Er eu bod yn gymhleth ac yn feintiol yn bennaf, mae eu canllawiau ar gyfer gwerthuso moesegol yn ddefnyddiol.
https://www.publicengagement.ac.uk/do-engagement/evaluating-public-engagement

Er ei fod yn canolbwyntio'n bennaf ar gydgynhyrchu gan gyfeirio at ddeddfwriaeth Lloegr, mae'r canllaw hwn yn cynnwys adran ddefnyddiol ar adolygu a gwerthuso gwaith cydgynhyrchu.
https://www.scie.org.uk/co-production/what-how

Mae Better Evaluations yn cefnogi gwelliannau mewn arferion gwerthuso yn rhyngwladol.
https://www.betterevaluation.org/

Mae amrywiaeth o adnoddau a chymorth i aelodau o Rwydwaith Cydgynhyrchu Cymru, gan gynnwys cymryd rhan a gwerthuso.
https://copronet.wales/
https://info.copronet.wales/measuring-what-matters/

# ATODIAD 1:
# TEMPLED FFURFLEN GANIATÂD CYFRANOGWR MEWN GWERTHUSIAD

RHOWCH LOGO/GWYBODAETH Y MUDIAD AR Y BRIG

## Ffurflen ganiatâd i gymryd rhan yng ngwerthusiad ENW'R PROSIECT

- Rwyf wedi clywed esboniad o'r gwerthusiad ac yn gwybod y bydd yn cynnwys NODWCH UNION BETH FYDD YN CYNNWYS.
- Rwy'n gwybod y gallaf ddewis cymryd rhan a stopio ar unrhyw adeg.
- Rwy'n hapus i gael fy nghyfweld/cymryd rhan mewn grwpiau cynghori/grwpiau ffocws/gweithgareddau eraill a gwybod beth fydd cynnwys pob un o'r gweithgareddau hyn
- Rwy'n gwybod y bydd yr adroddiad yn ddienw, a bydd y gwaith yn gyfrinachol oni bai bod gwerthuswyr yn poeni bod problemau diogelu neu arferion gwael.
- Rwy'n gwybod mai dim ond y tîm gwerthuso fydd yn gallu gweld fy enw a gwybodaeth bersonol gyfyngedig fel fy OEDRAN/CYMUNED LLE RWY'N BYW UNRHYW BETH ARALL
- Rwy'n gwybod y bydd yr hyn a ddywedaf yn cael ei storio'n ddiogel. Ni fydd hawliau diogelu data yn cael eu torri.

Llofnod (mae teipio yn iawn):

______________________________

Dyddiad:

______________________________

# ATODIAD 2: ENGHRAIFFT O ARFER DATBLYGOL 1: PENDERFYNU PRYD I WERTHUSO A MYFYRIO AR Y BROSES I WERTHUSO EFFAITH

Mae'r enghraifft ganlynol gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn fyr oherwydd, ar adeg ei hysgrifennu, maent ar ddechrau'r broses werthuso.


'Rydym yn cydweithio ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro gyda'r gymuned ehangach ac wedi datblygu grŵp cydgynhyrchu llewyrchus sy'n rhannu gweledigaeth i drawsnewid iechyd, lles a phrofiad i'r rhai sy'n byw gyda chyflyrau hirdymor. Mae ein 300 o aelodau wedi ffurfio 8 grŵp cydgynhyrchu llai, gan ddefnyddio methodoleg gydgynhyrchiol. Mae ein fforwm yn dangos effaith ar ddwy agwedd, diwylliant a chysylltiad.  Rydym yn gwerthuso ein heffaith ar y ddwy agwedd hon drwy archwilio ein taith gydgynhyrchu dros y 18 mis diwethaf ac rydym yn gobeithio darganfod mwy gyda gwerthusiad strwythuredig yn yr arfaeth.

Ymhlith yr enghreifftiau llwyddiannus o gydgynhyrchu mae:

- **Stepping Stones**: pecyn cymorth a gynhyrchwyd ar y cyd i gefnogi hunanreolaeth.
- **Siarter Disgwyliadau Cadw'n Iach** a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru, 'Y Polisi 3 cham ar gyfer Aros Rhagweithiol' yn dangos effaith ar lefel genedlaethol.
- **Rôl gwirfoddolwyr cyfoedion a rhaglen hyfforddi** yn cael ei pheilota ar draws sectorau
- **Tudalennau gwe Cadw Fi'n Iach:** ME/CFS, FND, Menopos, Endometriosis, gwella mynediad at wybodaeth a chymorth hunanreoli
- Mae'r **Gwasanaeth Byw'n Dda gyda Chyflyrau Hirdymor** yn cael ei gyd-gynllunio ar hyn o bryd - gweithdai ar gylch gwaith, llwyddiant, y model clinigol, a chodi ymwybyddiaeth'

## Pwyntiau dysgu ar gyfer cynnal gwerthusiadau o waith ymgysylltu

1. Mae'n dangos penderfyniad i gynnal gwerthusiad ffurfiannol o effaith eu gwaith ymgysylltu. Mae'r grŵp cydgynhyrchu sydd ganddyn nhw yn un parhaus yn hytrach nag yn brosiect gyda diweddglo. Felly fe benderfynon nhw gynnal gwerthusiad ar adeg benodol.
2. Maen nhw wedi nodi pa rannau o'u gwaith i'w gwerthuso (a ddisgrifir uchod fel y rhestr o brosiectau llwyddiannus a dolenni cysylltiedig.)
3. Maen nhw wedi nodi beth i'w werthuso - y prosesau ymgysylltu sydd wedi galluogi llwyddiannau'r prosiectau hyn ac effaith y prosesau hyn ar gyfranogwyr.
4. Maen nhw'n defnyddio gwybodaeth fonitro am y gwaith ymgysylltu sydd wedi dangos effaith i lywio pwrpas y gwerthusiad.
5. Er ei bod hi'n ddyddiau cynnar i'r gwerthusiad ei hun, mae'r penderfyniadau hyn yn hanfodol cyn dechrau ar waith gwerthuso.


Co-Production in Action
Live Well
Byw'n Iach
GIG Cymru NHS Wales
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale University Health Board
50+
People regularly contributing
280
People on our mailing list
30
Co-production Forums Held
8
Interest Groups Established
6


Connected and Strengthened Communities
Live Well
Byw'n Iach
GIG Cymru NHS Wales
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale University Health Board
Mental Health Foundation
WAMES
VERSUS ARTHRITIS
Foodwise for Life
Home Instead
DIABETES UK
KNOW DIABETES. FIGHT DIABETES.
Prehab2Rehab
WNO
BritishRedCross
Q5
NEA
Action for Warm Homes
FND HOPE UK
FUNCTIONAL NEUROLOGICAL DISORDER
CardiffMet
MetCaerdydd
ImROC
GVS
STRIPY LIGHTBULB CIC
CHWARAEON ANABLEDD CYMRU
DISABILITY SPORT WALES
Down to Earth
HealthCharity
Elusenlechyd
escape pain
eppcymru
GLL
GIG Cymru NHS Wales
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales
Nutrition Skills for Life
Sgiliau Maeth am Oes
RACE EQUALITY FIRST
astriid
LONG COVID WALES
legacy leisure
Keeping Me Well
Cardiff and Vale University Health Board
C3SC
WELSH ATHLETICS
MESIG
the hub
RUBICON DANCE
7

# ATODIAD 3: ENGHRAIFFT O ARFER DATBLYGOL 2: GWNEUD FFILM I WERTHUSO BETH SY'N BWYSIG I BOBL Â PHROFIAD BYWYD MEWN GWAITH YMGYSYLLTU

'Nod Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro yw gwella iechyd a lles y boblogaeth a gwella sut mae gwasanaethau iechyd a gofal yn cael eu darparu drwy sicrhau bod pobl yn cael y gefnogaeth gywir, ar yr amser cywir, yn y lle cywir. Gallwch ddysgu mwy am ein gwaith ymgysylltu. Rydyn ni wedi bod yn gweithio ar gyfres o ffilmiau o'r enw 'mae fy llais yn bwysig' i'n helpu i ddeall beth sydd bwysicaf i bobl wrth ymgysylltu â nhw. I wneud hyn, fe wnaethon ni weithio gyda C3SC a Promo Cymru a byddwn ni'n fuan yn rhyddhau rhai ffilmiau byrion wedi'u cydgynhyrchu sydd wedi'u creu gyda Grwpiau Ieuenctid a Grwpiau Pobl yn Gyntaf Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg. Cyfarfu Promo Cymru â'r grwpiau cyn ffilmio i gytuno ar gwestiynau a'r dull gweithredu cyffredinol.

Mae'r ffilmiau hyn yn adeiladu ar y dull a gymerwyd gennym mewn ffilm astudiaeth achos am brofiad cydgynhyrchu Jackie Askey, a fu'n gofalu am ei gŵr ac a oedd yn rhan o gynllun dysgu gofal Dementia.

## Pwyntiau dysgu o'r gwerthusiad hwn

1. Mae dysgu cynyddrannol o wneud ffilmiau ar gyfer gwerthusiadau. Dechreuon nhw gyda dull astudiaeth achos a defnyddio'r hyn a ddysgwyd o hynny i roi dull gweithredu ehangach ar waith.
2. Mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn defnyddio'r canfyddiadau i ddatblygu arferion. Cydnabu'r Bwrdd Partneriaeth fod 'gallu clywed lleisiau pobl a deall ymgysylltiad o'u safbwynt nhw wedi ein helpu i wella'r ffordd rydyn ni'n cyfathrebu ac yn ymgysylltu.'
3. Dyma enghraifft o ddefnyddio dull gwerthuso creadigol a hygyrch. Nid geiriau ysgrifenedig yw'r unig ffordd o adrodd ar ganfyddiadau gwerthuso ac mae ffilmiau'n galluogi cyfranogiad ym mhob rhan o'r broses o wneud ffilmiau.'

BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL CAERDYDD A'R FRO
CARDIFF & VALE REGIONAL PARTNERSHIP BOARD

# ATODIAD 4: ENGHRAIFFT O ARFER DATBLYGOL 3: GWERTHUSO PROFIAD CYDGYNHYRCHU MEWN PROSIECT YMCHWIL GYMDEITHASOL

Mae Ymddiriedolaeth Sant Giles Cymru yn elusen sy'n helpu pobl sydd wedi cael eu dal yn ôl gan dlodi, diweithdra, y system cyfiawnder troseddol, cam-drin, camfanteisio a digartrefedd i adeiladu dyfodol cadarnhaol. Mae gan yr elusen wirfoddolwyd â phrofiad bywyd a chyfleoedd â thâl sy'n galluogi cefnogaeth gan gymheiriaid, ochr yn ochr â datblygiad personol a gyrfaol.

Fe wnaethant gomisiynu C.A.R.P. Collaborations, menter gymdeithasol sy'n ymgymryd ag ymchwil a gwerthusiadau cyfranogol a chydgynhyrchu, i gynnal ymchwil ansoddol i archwilio agweddau cyflogwyr at gynnig cyfleoedd gwirfoddoli a lleoliadau gwaith di-dâl i bobl â phrofiadau bywyd. Roedd y tîm ymchwil yn cynnwys ymchwilwyr â phrofiad bywyd. Roedd y ddau fudiad eisiau gwerthuso profiadau'r cyd-ymchwilwyr i gynorthwyo dysgu sefydliadol.

Cynhaliodd y ddau fudiad gyfweliadau anffurfiol, sgyrsiol gyda phob ymchwilydd profiad bywyd i ddarganfod beth roedden nhw'n teimlo eu bod nhw wedi'i ddysgu, faint o gefnogaeth roedden nhw wedi'i chael a ble roedd angen gwella'r broses o gyflogi ymchwilwyr profiad bywyd. Drwy gynnal cyfweliad heb strwythur, gallai ymchwilwyr profiad bywyd godi eu pynciau trafod eu hunain.

Cafodd y mudiadau gyfarfod diwedd prosiect a oedd yn cynnwys rhannu’r hyn a ddysgwyd a myfyrio ar y broses gydweithio. Cafodd yr asesiad ei gynnwys fel atodiad i'r adroddiad ymchwil. Fe ddysgon ni y gall agweddau ar y broses ymchwil fod yn rhwystredig oherwydd oedi amser a gwaith maes dwys a sydyn. Fe wnaethon ni ddarganfod bod ymchwilwyr â phrofiad bywyd yn gwerthfawrogi cael cefnogaeth un i un wedi'i theilwra wrth ddysgu sgiliau ymchwil a chael cynnig hyblygrwydd o ran pa elfennau o'r ymchwil yr oeddent am fod yn rhan ohonynt.

## Pwyntiau dysgu ar gyfer cynnal gwerthusiadau

1. Arweiniwyd y gwerthusiad gan y mudiadau, ond roedd ganddo ddull cyfranogol i alluogi cyfranogiad.
2. Roedd y meini prawf wedi'u gosod yn glir ynghylch beth i'w werthuso a pham.
3. Gellir defnyddio'r canfyddiadau'n hawdd i ddatblygu arferion.

CARP COLLABORATIONS
COMMUNITY · ACTION · RESEARCH · POLICY

St Giles CYMRU
Troi gorffennol yn ddyfodol
Turning a past into a future

# ATODIAD 5: ENGHRAIFFT O ARFER DATBLYGOL 4: CYDGYNHYRCHU WRTH DDYLUNIO GWERTHUSIAD; OFFERYN AR GYFER GWERTHUSO GOFAL SY'N CANOLBWYNTIO AR Y PERSON

Gweithiodd Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru gyda phobl a oedd â phrofiad bywyd o ofal i ddatblygu offeryn gwerthuso. Mae'r offeryn 'Percci' yn galluogi darparwyr gofal a'r bobl maen nhw'n eu cynorthwyo i ddadansoddi ansawdd y gofal sy'n cael ei dderbyn a sut mae'n cael ei brofi. Gan fod datblygiad yr offeryn wedi cynnwys pobl â phrofiad bywyd o ofal, mae'n galluogi i'r gwaith o werthuso ansawdd gofal fod yn fwy effeithiol a pherthnasol a'r broses werthuso i fod yn hygyrch i bobl sy'n derbyn gwasanaethau gofal. https://info.copronet.wales/measuring-person-centred-care-a-simple-co-produced-tool/

## Pwyntiau dysgu ar gyfer cynnal gwerthusiadau

1. Mae'n bosibl cynnwys pobl yn y gwaith o gynllunio'r gwaith gwerthuso heb iddyn nhw fod yn rhan o bob agwedd ar y gwerthusiad. Mae hyn yn arbennig o bwysig wrth werthuso amgylchiadau personol fel gofal cymdeithasol, gofal meddygol neu gymorth tai.
2. Mae cynnwys pobl wrth ddylunio yn galluogi cydgynhyrchu mewn gwerthusiadau meintiol, sy'n aml yn cael ei hystyried yn dasg anodd i'w chyflawni.
3. Mae cymryd rhan mewn gwaith dylunio yn cael effaith ar effeithiolrwydd a hygyrchedd y broses werthuso.

# ATODIAD 6:
# ENGHRAIFFT O ARFER DATBLYGOL 5: GWERTHUSO DATBLYGIAD A GWEITHREDIAD EGWYDDORION YMGYSYLLTU

Elusen gofrestredig a chwmni cyfyngedig drwy warant yw Tai Pawb. Rydyn ni'n dychmygu ac yn ymgyrchu dros Gymru lle mae gan bawb yr hawl i gartref da, gan hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn tai. Mae Tai Pawb hefyd yn darparu cyngor a chymorth ymarferol i'w aelodau, gan gynnwys yr achrediad cydraddoldeb ac amrywiaeth ar gyfer y sector tai.

Mae Tai Pawb wedi ymgymryd fwyfwy â gwaith ymgysylltu profiad bywyd ar draws amrywiol ddarnau o waith a phrosiectau, gan gynnwys gyda ffoaduriaid, ceiswyr lloches a phobl heb fynediad at gyllid cyhoeddus, prosiectau ymchwil a thenantiaid y sector rhentu preifat. Roedden ni eisiau adeiladu ar y gwaith hwn, felly roedd wedi'i wreiddio'n fwy gyda dull mwy manwl felly fe wnaethon ni gyd-ddatblygu egwyddorion ar gyfer sut y byddwn ni'n gweithio gyda phobl â phrofiad bywyd. Profwyd yr egwyddorion gyda chyfranogwyr mewn rhai o'n prosiectau a staff mewn mudiad partner ac fe'u haddaswyd lle bo angen. Rhoddodd hyn sicrwydd ein bod yn gweithio yn y maes cywir.

Dysgon ni ei bod hi'n bwysig myfyrio ar sut rydyn ni'n gwneud pethau, nid dim ond yr hyn rydyn ni'n ei wneud. Rydyn ni hefyd yn cydnabod bod y maes hwn yn brofiad dysgu parhaus, ac mae'n bwysig myfyrio, mireinio a gwella'n rheolaidd.

## Pwyntiau dysgu ar gyfer cynnal gwerthusiadau

1. Mae profi egwyddorion neu ffyrdd o weithio yn enghraifft o werthusiad ffurfiannol. Mae'r canfyddiadau'n bwydo i'r gwaith sy'n cael ei wneud a bydd adolygiadau parhaus yn cael eu cynnal.
2. Mae gwerthuso gwaith cyd-ddatblygu yn ffordd dda o sicrhau bod eich gwaith ymgysylltu yn berthnasol i bawb sy'n rhannu profiad bywyd penodol, yn hytrach na bod yn berthnasol i un rhan o'r gymuned yn unig.

tai pawb
promoting equality in housing
hybu cydraddoldeb ym maes tai